Eisteddfod
CALAN MAI

# ABERYSTWYTH

Yn agored i gystadleuwyr o bedwar ban

## 4:30y.h, Dydd Iau, 7 Mai, 2026

***Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth***

### BEIRNIAID

**Cerdd:** Siw Jones
**Llefaru a Llên:** Aneirin Karadog
**Celf:** Gareth Owen
**Trefnu Blodau:** Donald Morgan


### ARWEINYDDION

Gwen Aeron, Catrin Pugh Jones,
Deian Creunant, Gareth James a Clive Williams

### CYFEILYDD

Lona Phillips

**Mynediad: £3 (Plant ysgol am ddim)**



## RHEOLAU:

1. Mae pob cystadleuaeth yn agored o ran y **dewis o ddarn** ac o ran yr **oed cystadlu oni nodir yn wahanol.** Disgwylir i bawb gystadlu trwy gyfrwng y Gymraeg (neu'n ddi-iaith lle bo hynny'n addas),ac ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn mwy nag un gystadleuaeth.

2. **Y Cyfeilydd:** Os am wasanaeth y cyfeilydd swyddogol rhaid cysylltu â Lona erbyn **26 Ebrill** ar 01974 261710 neu lona.phillips@btinternet.com

3. **Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: Mewn Cymeriad.** Perfformiad hyd at 5 munud, wedi'i seilio ar ddewis o sgriptiau Mewn Cymeriad (sgriptiau ar www.steddfota.cymru). Dylai'r pwyslais fod ar greu perfformiad ysgafn, fydd yn profi gallu'r unigolyn i ryngweithio'n hwylus gyda'r gynulleidfa a chyfleu'r stori'n glir. Caniateir gwisgoedd a props

Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol **rhwng Mai 2025 a Mai 2026** yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026 am wobrau o £150, £120 a £90. Bydd yr enillydd cenedlaethol yn derbyn gwahoddiad i ymuno â Chwmni Mewn Cymeriad maes o law ar gyfer gweithdy ymarferol i ddatblygu sgiliau ymhellach.

4. **Gwaith Llên** i law Megan Jones Roberts, 24 Pen Rheidol, Penparcau, Aberystwyth SY23 1QW neu drwy ebost meganjones849@gmail.com **erbyn 24 Ebrill**. Ffugenwau mewn amlen ar wahân os gwelwch yn dda.

**Gwaith Celf** i gyrraedd Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH **erbyn 30 Ebrill**.

**Trefniadau Blodau** i gyrraedd y Morlan erbyn 12 o'r gloch ar ddydd yr Eisteddfod.

5. **Rhaid darparu copïau i'r beirniad a'r cyfeilydd.**

6. **Bydd gan y beirniad hawl i rannu neu atal gwobr (neu ran o wobr).**

7. **Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau.**

## CYSTADLAETHAU LLWYFAN

| | 1af | 2il | 3ydd |
|---|---|---|---|
| **1. Unawd Bl.2 ac iau** | £10 | £7 | £5 |
| **2. Llefaru Bl.2 ac iau** | £10 | £7 | £5 |
| **3. Unawd Bl.3 a 4** | £10 | £7 | £5 |
| **4. Llefaru Bl.3 a 4** | £10 | £7 | £5 |
| **5. Unawd Bl.5 a 6** | £10 | £7 | £5 |
| **6. Llefaru Bl.5 a 6** | £10 | £7 | £5 |
| **7. Unawd Offerynnol** - oed Cynradd | £10 | £7 | £5 |

***Cyflwynir Tlws er cof am Velvor Raw Rees gan ei gŵr, Charles Raw Rees, i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn y cystadlaethau llwyfan i oedran ysgol gynradd***

| | 1af | 2il | 3ydd |
|---|---|---|---|
| **8. "Sgen Ti Dalent?"** *Cystadleuaeth i unigolion neu grwpiau **dan 18 oed** (Caniateir i bobl sy'n 18 oed eisoes ond sy'n dal yn yr ysgol gystadlu yn y categori hwn).* | £30 | £20 | £15 |

*Gwahoddir cystadleuwyr i wneud unrhyw beth i ddiddanu'r gynulleidfa, nad yw ar y rhaglen yn barod, am ddim hwy na 5 munud. Gall fod yn ganu, dawnsio, dweud jôcs, gwneud triciau, actio, llefaru a.y.y.b (Os ydych yn bwriadu dawnsio rhaid hysbysu'r Ysgrifennydd **erbyn 25 Ebrill**). Caniateir hyd at 3 munud ychwanegol i baratoi'r llwyfan os oes angen.*

| | 1af | 2il | 3ydd |
|---|---|---|---|
| **9. Cystadleuaeth symud *Hula Hoops* gyda gwelltyn** | £5 | | |
| **10. Ensemble Offerynnol Agored** (3-12 aelod) | £30 | £20 | £15 |
| **11. Cystadleuaeth Sgetsh** - yn agored i unrhyw oedran. *Dim hwy na 5 munud. Caniateir hyd at 3 munud ychwanegol i baratoi'r a chlirio'r llwyfan os oes angen* | £30 | £20 | £15 |
| **12. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: MEWN CYMERIAD** | £30 | £20 | £15 |

Oed:16-25

*Cyfle i bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol cwmni Mewn Cymeriad. (Dewis o sgriptiau ar gael ar www.steddfota.cymru)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13. Unawd neu Unawd allan o Sioe Gerdd GYMRAEG** - oed Uwchradd | £20 | £15 | £10 |
| **14. Llefaru Unigol** - oed Uwchradd | £20 | £15 | £10 |
| **15. Unawd Offerynnol** - oed Uwchradd | £20 | £15 | £10 |
| **16. "Sgen Ti Dalent?"** *Cystadleuaeth i unigolion neu grwpiau* ***dros 18 oed.*** | £30 | £20 | £15 |
| *Gweler amodau cystadleuaeth rhif 8.* | | | |
| **17. Unawd dros 18 oed** *Unrhyw ffurf gan gynnwys Emyn/Cân Gymreig/Unawd Sioe Gerdd GYMRAEG* | £20 | £15 | £10 |
| **18. Llefaru dros 18 oed** *Dim dros 5 munud o amser* | £20 | £15 | £10 |
| **19. Cystadleuaeth Canu neu Lefaru i Ddysgwyr** (oedolion) *I unigolion, parau neu grwpiau. Caniateir i fyny at 20% o'r grŵp fod yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.* | £20 | £15 | £10 |
| **20. Canu Emyn dros 50 oed** *Uchafswm o 3 pennill yn unig* | £20 | £15 | £10 |
| **21. Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru** | £100 | £75 | £50 |

*Unrhyw gyfuniad o leisiau, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunaunddewisiad, heb fod yn hwy nag 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellir hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro.*
*Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2025 a Mai 2026 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026.*

EISTEDDFOD Y Garreg Las 2026
CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

## CYSTADLAETHAU GWAITH CARTREF

**DYDDIAD CAU: 24 Ebrill *(gweler rheol 4)***

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. **Tlws yr Ŵyl**: Cerdd heb fod dros 100 llinell neu darn o Ryddiaith heb fod dros 3,000 o eiriau. Testun - **"Y WAWR"** | Tlws ac £20 | £15 | £10 |
| 2. Limrig i gynnwys y linell: **"Aeth Mari am ddiwrnod i'r Barri"** | £5 | £3 | £2 |
| 3. Erthygl addas ar gyfer Papur Bro (hyd at 300 gair): **AGORED** | £15 | £10 | £5 |
| 4. Cystadleuaeth i ddysgwyr: Ysgrifennu darn o ryddiaith. Testun - **"Fy hoff wyliau"** (Dim mwy na 200 gair) *(Mae gofyn i ddysgwyr nodi eu lefel wrth gystadlu)* | £15 | £10 | £5 |
| 5. Englyn ar y testun: **"GOBAITH"** | £10 | £7 | £5 |
| 6. **Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc** (i rai dan 25 oed): Dau ddarn mewn dwy ffurf wahanol e.e stori fer, ysgrif, cerdd neu bortread (hyd at 2,000 o eiriau yr un) | Tlws ac £20 | £15 | £10 |

*Bydd y gwaith buddugol, yn ogystal â'r gweithiau sy'n dod yn 2il a 3ydd, yn gymwys i gael eu dewis ar gyfer cystadleuaeth "Tlws yr Ifanc" yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026. Y beirniad fydd yn dewis pa ddarnau i'w hanfon ac nid oes rheidrwydd arno i ddewis unrhyw ddarnau.*

CYSTADLEUAETH TLWS YR IFANC

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. Darn o Gelf gan oedolyn: **AGORED** | £10 | £7 | £5 |
| 8. Ffotograff gan Oedolyn: Testun **"CARREG neu CERRIG"** (Maint 10x8 modfedd) | £10 | £7 | £5 |

### UWCHRADD

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Darn o Gelf neu Arlunio oed Uwchradd: Testun **AGORED** | £10 | £7 | £5 |
| 2. Ffotograff: Testun **"BLODYN neu BLODAU"** (Maint 10x8 modfedd) | £10 | £7 | £5 |

### CYNRADD

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Addurno plât papur | £10 | £7 | £5 |
| 2. Stori: Testun **"FY HOFF ANIFAIL"** (dim mwy na 100 gair) | £10 | £7 | £5 |
| 3. Ffotograff: Testun **"BYD NATUR"** (Maint 10x8 modfedd) | £10 | £7 | £5 |

### GOSOD BLODAU

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Torch o flodau ffres o unrhyw faint | £10 | £7 | £5 |

Eisteddfod

CALAN MAI

# DIOLCH

- I Gronfa Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am eu nawdd o £469
- I Grant Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion am rodd o £250
- I wneuthurwr y ddau dlws Gwaith Cartref - myfyrwyr Adran Gelf Coleg Ceredigion
- I Bapur Bro Yr Angor am noddi’r ddau dlws
- I bwyllgor Eisteddfod Penrhyn-coch am gael benthyg y cleddyf a’r clogyn ar gyfer y seremonïau
- I’r Morlan am gael defnyddio’r adeilad i gynnal yr Eisteddfod
- I bawb sydd wedi cyfrannu tuag at yr Eisteddfod eleni



AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

